## Gweddi a Diolch ar y Pasg

**Arweinydd:**
Gweddïwn gerbron Crist Iesu, a ddioddefodd drosom.

**Cynulleidfa:**
Trwy dy farwolaeth a’th Atgyfodiad, achub ni.

**Arweinydd:**
Rhoddaist dy fywyd yn aberth dros dy gyfeillion.

**Cynulleidfa:**
Boed i ni garu ein gilydd fel y ceraist ni.

**Arweinydd:**
Buost yn ostyngedig ac ufudd hyd angau, ie angau’r Groes.

**Cynulleidfa:**
Arwain dy Eglwys i ŵyl y Pasg a’r bywyd tragwyddol.

**Arweinydd:**
Gwnaethost y Groes yn symbol y Bywyd diddiflanedig.

**Cynulleidfa:**
Rhanna dy fuddugoliaeth gyda phawb a fedyddiwyd yn dy eglwys ar y ddaear.

**Arweinydd:**
Buost farw er mwyn ein hachub ni oll.

**Cynulleidfa:**
Cluda i’th Deyrnas bawb sy’n credu ac yn gobeithio.  Amen.